

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

2/7/15

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Edith Roberts, Dilys Evans, Dorothei Evans, , Dilwyn Jones, Islwyn Pritchard Jones, Ivora Jones, Alun Price, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Sharon Evans, Eluned Jones, Carol Rowlands

1. Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb ac yn arbennig i gynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru a oedd yn mynychu ar gais Cyngor Tref Y Bala.
2. Yn dilyn cyfarfod arbennig ym Mehefin, cafwyd trafodaeth bellach gyda'r Heddwision Gerwyn Thomas ac Iwan Jones ar y defnydd o gamerâu cylch cyfyng (ccc)i leihau troseddau. Profiad trefi eraill yw bod ccc yn cyfrannu at atal troseddau ac at ddal drwgweithredwyr. Cytunwyd i wahodd cynrychiolydd o'r Bermo i gyfarfod arbennig er mwyn dysgu o brofiad y dref honno.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Dilys Evans ym mater cynllunio NP5/53/L41N.
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod 4/6/15.
6. **Materion yn codi:** cafwyd eglurhad llawn gan y Gymdeithas Chwaraeon pam na ddefnyddiwyd un cyfraniad a rhoddwyd iddynt yn y flwyddyn flaenorol.

7. Adroddiad y Clerc ar faterion a drafodwyd yng nghyfarfod Mehefin:

Derbyniwyd ymateb swyddogion i rwystr ar y stryd yn mynegi fod y rhwystr wedi ei symud a bod y perchennog busnes wedi derbyn rhybudd llafar ac ysgrifenedig.

Mae'r Heddlu a'r Swyddogion yn parhau i fonitro parcio cyfnod hir yn Heol yr Orsaf.

Y Domen - mae adran gyllid Cyngor Gwynedd yn derbyn nad yw Cyngor Tref Y Bala ar hyn o bryd yn arwyddo prydles y domen; derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd fod y gwaith o ddiogelu wal y Domen mewn llaw. Yn y cyfamser mae Cyngor Tref Y Bala yn parhau i ofalu am gynnal a chadw'r llystyfiant a diolchwyd i'r Dirprwy Faer am gasglu'r sbwriel yno.

Derbyniwyd arweiniad gan Un Llais Cymru nad oes angen cyhoeddi buddiannau Cynghorwyr ar y we. Cadarnhawyd mai 45c y filltir yw'r raddfa treuliau teithio i gynghorwyr.

Derbyniwyd gwybodaeth fod y gwaith o baentio'r mynegbost wrth Craft Centre Cymru ar raglen y giang cymunedol.

Cafwyd eglurhad i bryder y Cynghorwyr parthed gwasanaeth bws T3 a'r anhawster i wneud cysylltiad gyda'r trên yn Rhiwabon.

Anfonodd y Clerc lythyr i gefnogi cais Clwb Rygbi'r Bala am adnoddau ychwanegol a fydd o gymorth i'r ieuentid. Llongyfarchwyd y Clwb ar ennill yr cystadleuaeth Rugbyforce a diolchwyd i drigolion Penllyn gyfan am eu cefnogaeth.

8. Materion y Cynghorydd Sir:

Ysgol Gydol Oes – mae pethau yn symud ymlaen yn hwylus erbyn hyn.

Llwybr Pysgotwyr - mae wedi cychwyn ar y broses i ddynodi hwn yn llwybr cyhoeddus

Mae wedi cael cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor i drafod nifer o faterion megis lloches bws, rac dal beics, tacluso biniau ar y stryd a'r sefyllfa ynghylch parcio yn ardal y Plase.

Mae wedi cychwyn trafodaethau ynghylch ffioedd parcio yn Y Grŵn a'r Plase gan ei wneud yn hollol glir nad yw'n dderbyniol cael y ddau yn codi lleiafswm o £3 o ffi parcio. Mae wedi gofyn am ail ddynodi'r Plase yn faes parcio tymor byr. Mae'n dal allan y dylai'r dref dderbyn canran o'r ffioedd parcio ar gyfer prosiectau cymunedol.

Mae cyfarfodydd am Neuadd Buddug yn dal i ddigwydd a'r gobaith yw y bydd y neuadd yn cael ei hatgyweirio yn y dyddiau nesaf er mwyn cael tynnu'r ffens sydd y tu allan.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am ei waith.

9. **Cyfarfod Her Gwynedd** - derbyniwyd adroddiad y Maer o'r cyfarfod hwn. Yn amlwg mae llai o arian yn dod o'r Llywodraeth ac ar yr un pryd mae cynnydd yn yr angen am wario ar wasanaethau, yn arbennig ar gyfer pobl hŷn; bydd hyn yn rhwym o arwain at doriadau i wasanaethau ac felly at y cyfle i ddarparu rhai gwasanaethau yn lleol. Bydd cyfarfodydd pellach ym mis Medi a bydd y toriadau yn dod i rym yn Ebrill 2016.

10. Materion Cynllunio:

- i. Cymeradwywyd Cais NP5/53/426E sef amnewid gorchudd to Pafiliwn Chwaraeon, Heol y Castell.
- ii. Cymeradwywyd Cais NP5/53/L41N sef Amnewid peiriant ATM ar Iefel is, HSBC, Y Stryd Fawr.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am Dystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer defnyddio 53 Stryd Fawr, Y Bala fel tŷ annedd sengl.

11. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis i Bartneriaeth Penllyn, Y Clerc ac am gynnal y Domen.
- iii. Ystyriwyd e-bost Cylch y Pethe a chytunwyd i awgrymu iddynt wneud cais o'r newydd – yn cynnwys mantolen - fis Chwefror nesaf gan fod y flwyddyn ariannol wedi dod i ben erbyn hyn.

12. Gohebiaeth –

- i. Ystyriwyd cais am gymorth i rali hen geir ym Medi a chytunwyd i gyflwyno'r wybodaeth i Glwb Moduron Y Bala.
- ii. Derbyniwyd gwahoddiad i'r Maer fynychu gala nofio ar Lyn Tegid ar 11 a 12 Gorffennaf.
- iii. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Eisteddfod Gylch Penllyn.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am ail-strwythuro'r gwasanaeth Cofrestru sy'n golygu diddymu'r gwasanaeth yn Y Bala. Cytunwyd i wrthwynebu hyn ac i awgrymu'r Henblas fel canolfan os ydynt yn chwilio am ofod arall.
- v. Derbyniwyd adroddiad "Llwyddo yng Ngwynedd".
- vi. Derbyniwyd gwybodaeth am "Gwynedd Ni"
- vii. Derbyniwyd gyda diolch wahoddiad i Agoriad Swyddogol Bloc Llety Gwyn yng Nglan Llyn; bydd y Maer, y Dirprwy Faer a Dorothi Evans yn cynrychioli'r Cyngor yn yr Agoriad.
- viii. Nodwyd derbyn adroddiad Blyneddol yr Ombwdsman
- ix. Rhannwyd neges Cyngor Iechyd Cymuned; gellir rhoi gwybodaeth gwybod i CIC am brofiadau cleifion drwy gysylltu â Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog ar 01248 679284 neu 07970 194777; Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog ar 01248 679284 neu admin@bcchc.org.uk [. <mailto:admin@bcchc.org.uk>](mailto:admin@bcchc.org.uk) .

13. Asedau'r Cyngor

- i. Cytunwyd i archebu dwy fainc.
- ii. Diolchwyd i Edith Roberts am archwilio asedau'r Cyngor ac i John C Williams am eu harchwilio dros yr haf.

14.Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr. Parc Cenedlaethol Eryri sy'n gwbl gyfrifol bellach am doiledau Cae Garnedd a Llanywer.

15.Materion lleol y Cyngorwyr Tref

- i. Mae parcio blêr rhwng cyffordd Heol Tegid a siop y Co-op yn creu perygl a rhwystr i drafnidiaeth. Cytunwyd i ddwyn sylw Swyddogion Gwynedd a'r Heddlu at y mater.
- ii. Cytunwyd i gysylltu gyda'r Adran Ail-gylchu gan nad ydyw'r biniau ail-gylchu newydd wedi cael eu dosbarthu i bob rhan o'r dref. Cytunwyd y byddai'n fodd o hybu cyfranogiad pe gellid rhoi eglurhad i drigolion o'r hyn sy'n digwydd i ddeunydd ail-gylchu.
- iii. Bydd Cyngor Tref Y Bala yn tynnu sylw Adran yr Amgylchedd at y llanast ym mhen draw ffordd yr hen lein yn yr ystâd ddiwydiannol.
- iv. Derbyniwyd cais am wybodaeth a chydweithrediad gan grŵp o'r Iwerddon a fydd yn ymweld â'r Frongoch i nodi can mlynedd ers i garcharorion gyrraedd y gweryll. Cytunwyd i anfon y cais i sylw Cyngorau Llanyfil a Llandderfel gan fynegi parodrwydd Cyngor Tref Y Bala i fod o gymorth os bydd angen.
- v. Cytunwyd i dynnu sylw'r swyddogion nad ydyw'r gwair ar ochr y ffordd i gyfeiriad Llangynog wedi ei dorri yn y darn 40mya.
- vi. Derbyniodd y Maer wahoddiad i fynychu'r ras beiciau ar wyl y Banc ym mis Awst.

Amser gorffen: 9.00pm